***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 692

## Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011

## RHAN 1

Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011; mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 31 Mawrth 2011.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "anifail dan amheuaeth" ("*suspected animal*") yw anifail nad yw'n anifail buchol, yr amheuir yr effeithiwyd arno gan dwbercwlosis, ac y mae'n cynnwys anifail nad yw'n anifail buchol a fu mewn cysylltiad agos ag anifail o'r fath nad yw'n anifail buchol;

ystyr "anifail nad yw'n anifail buchol" ("*non-bovine animal*") yw carw, gafr, alpaca, gwanaco, lama neu ficwnia;

ystyr "anifail yr effeithiwyd arno" ("*affected animal*") yw anifail nad yw'n anifail buchol yr effeithiwyd arno gan deneuo twbercylaidd, neu sy'n ysgarthu neu'n gollwng deunydd twbercylaidd, neu yr effeithiwyd arno gan beswch cronig, neu sy'n dangos unrhyw arwyddion clinigol eraill o dwbercwlosis;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sy'n berchen neu sy'n gyfrifol am anifail nad yw'n anifail buchol, pa un ai ar sail barhaol neu dros dro, ond nid yw'n cynnwys person sy'n gyfrifol am anifail nad yw'n anifail buchol oherwydd, yn unig, bod y person hwnnw'n ei gludo;

ystyr "diheintydd cymeradwy" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yn erbyn twbercwlosis yn unol â Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Cymru) 2007(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981;

ystyr "hysbysiad gwella milfeddygol" ("*veterinary improvement notice*") yw hysbysiad a gyflwynir o dan erthygl 8 (hysbysiad gwella milfeddygol);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys—

(a) tir neu adeiladau; a

(b) unrhyw le arall gan gynnwys, yn benodol, cerbyd, llong, awyren, neu babell neu adeiledd symudol arall;

ystyr "prawf perthnasol" ("*relevant test*") yw prawf diagnostig ar gyfer twbercwlosis a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru; ac

ystyr "twbercwlosis" ("*tuberculosis*") yw heintiad â *Mycobacterium bovis (M. bovis)*.

(**1**) O.S. 2007/2803 (Cy.236).

**Dirymiadau a diwygiadau**

**3.**—(1) Mae'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru—

(a) Gorchymyn Twbercwlosis (Ceirw) 1989(**2**); a

(b) Gorchymyn Twbercwlosis (Ceirw) Hysbysiad o Gigydda Arfaethedig ac Iawndal 1989(**3**).

(2) Yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010(**4**)—

(a) yn erthygl 12(1) (profi ar gyfer twbercwlosis) rhodder "cyn" yn lle "erbyn"; a

(b) yn erthygl 22(1) (adnabod M. bovis mewn labordy) rhodder "hysbysu Gweinidogion Cymru" yn lle "hysbysu'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol".

**Arbedion a phontio**

**4.**—(1) Bydd unrhyw hysbysiad neu drwydded a ddyroddwyd, neu gymeradwyaeth neu ganiatâd a roddwyd, o dan Orchymyn Twbercwlosis (Ceirw) 1989 neu Orchymyn Twbercwlosis (Ceirw) Hysbysiad o Gigydda Arfaethedig ac Iawndal 1989 ac sy'n effeithiol pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, yn parhau mewn grym, fel pe bai'n hysbysiad neu drwydded a ddyroddwyd, neu'n gymeradwyaeth neu ganiatâd a roddwyd, o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynir o dan Orchymyn Twbercwlosis (Ceirw) Hysbysiad o Gigydda Arfaethedig ac Iawndal 1989 fel y mae'n gymwys i hysbysiad a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn.

(**2**) O.S. 1989/878.

(**3**) O.S. 1989/1316.

(**4**) O.S. 2010/1379 (Cy.122).